**Cyfeirnod:** IR807

**Dyddiad cyhoeddi:** 24 Ionawr 2022

# Dadansoddiad cronfeydd wrth gefn

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 23 Rhagfyr 2021 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth ynghylch dadansoddi graffiau yn ein hadroddiadau Cynaliadwyedd Ariannol.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

**Rwyf wedi sylwi ar y graff hwn yn un o'ch Adroddiadau Cynaliadwyedd Ariannol**

**Oes gennych chi ddadansoddiad graff/tabl llawn ar gael sy'n dangos safle pob un o'r 22 awdurdod o'i gymharu â'i gilydd? Rwy'n sylwi nad yw'n ymddangos bod y tabl/graff hwn yn cael ei gyflwyno yn yr holl adroddiadau rydych chi wedi'u gwneud eleni.**

Rwyf wedi cysylltu â chydweithwyr archwilio perthnasol a chadarnhau bod offeryn data gyda'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei datblygu, ac y bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan Archwilio Cymru yr wythnos gyntaf ym mis Chwefror 2022.

O dan s22(1)(b) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 nid oes gorfodaeth arnom i ddarparu gwybodaeth sy'n ddyledus i'w chyhoeddi yn y dyfodol. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ddiddordeb cyhoeddus dybryd mewn darparu'r wybodaeth yn gynharach na'r dyddiad cyhoeddi disgwyliedig ac mae'r wybodaeth ar hyn o bryd yn destun clirio gan y cyrff perthnasol a gwirio.

Yn y cyfamser, gallai fod yn ddefnyddiol nodi bod dadansoddiad graff a/neu dabl gyda chymhariaeth â chynghorau eraill Cymru ar gael yn gyhoeddus ar wefan Archwilio Cymru yn yr adroddiadau canlynol:

Tudalennau 10-11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalen 10 Cyngor Sir Ddinbych – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalennau 9-10 Cyngor Sir Ynys Môn - Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalen 10 Cyngor Gwynedd – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalennau 10-11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalen 10 Cyngor Sir y Fflint – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalennau 10-11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalennau 10-11 Cyngor Dinas Casnewydd – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalennau 11-12 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalennau 11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalen 11 Cyngor Sir Fynwy – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol(archwilio.cymru)

Tudalen 11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalen 11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (audit.wales)

Tudalen 10 Cyngor Bro Morgannwg – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalen 12-13 Cyngor Caerdydd – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalennau 10-11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalen 11 Cyngor Sir Powys – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)

Tudalen 11 [Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)]

Tudalen 9 [Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)]

Tudalen 10 [Cyngor Sir Penfro – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (audit.wales)]

Os ydych chi'n anfodlon gyda'r ffordd y deliodd eich cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiadau mewnol at Martin Peters, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg, drwy e-bost at martin.peters@archwilio.cymru neu drwy'r post i Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid imi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth lle gallwch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais ai peidio yn unol â'r Ddeddf. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi na fydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn ymchwilio i gŵyn fel arfer nes bod y broses adolygu mewnol wedi'i dihysbyddu. Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth